| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 6 MAWRTH 2014 |
| **PWNC** | ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | CYFLWYNO CAIS I GYMERADWYO ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR |
| **AWDUR** | GERAINT GEORGE, PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach.

1.2 Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

**2. SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

2.1 Mae triniaeth ysbyty ei ferch ac, yn fwy diweddar, salwch terfynol ei dad , mae cael effaith ar sawl agwedd o fywyd y Cynghorydd Nigel Pickavance gan gynnwys ei allu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod.

2.2 Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Nigel Pickavance o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei alluogi i barhau i fod yn aelod.

2.3 Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna daw cyfnod y Cynghorydd Nigel Pickavance fel aelod o'r Cyngor i ben.

2.4 Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Nigel Pickavance oherwydd yr amgylchiadau personol difrifol y mae wedi ei wynebu dros y misoedd diwethaf.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Nigel Pickavance o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd yr amgylchiadau personol difrifol y mae wedi ei wynebu dros y misoedd diwethaf, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei alluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.